


# 10 Cyfle i Ailosod ac Ailgychwyn System Gofal wedi'i Gynllunio y GIG

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2020



## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno</b>	<b>4</b>
<b>1 Pum cyfle i ailosod y system</b>	
Gwneud penderfyniadau dewr am y gyfundrefn targedau ac atebolrwydd er mwyn cysoni'r system gofal arfaethedig o amgylch 'beth sy'n bwysig'	9
Cryfhau arweinyddiaeth gyfunol gofal wedi'i gynllunio, dysgu gwersi o COVID-19 a chyn hynny	9
Atgyfnerthu ac ehangu newidiadau diweddar mewn gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cynnwys cleifion	10
Cynnal adolygiad llawn a gonest o gapasiti a chynaliadwyedd y system gofal wedi'i gynllunio	11
Datblygu mesurau perfformiad ar gyfer gofal wedi'i gynllunio sy'n cyd-fynd â chanlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i gleifion, teuluoedd a chymunedau	12
<b>2 Pum cyfle i ailgychwyn y system</b>	
Parhau i ddatblygu systemau ar gyfer blaenoriaethu cleifion sydd â'r angen mwyaf am driniaeth	15
Ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion am yr opsiynau triniaeth a'r heriau, yn unol ag egwyddorion cyd-gynhyrchu	16
Cynyddu gweithgarwch yn ofalus gan barhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a chadw'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i COVID-19	16
Ymgysylltu â chlinigwyr a gwyddonwyr data i ddadansoddi'n drylwyr yr ôl-groniad o restrau aros gyda'r nod o leihau'r risg o or-drin	17
Hyrwyddo atal, hunanofal a newid ymddygiad er mwyn lleihau afiechydon anadlol yn arbennig a diogelu capasiti'r GIG dros fisoedd yr hydref/gaeaf	18
<b>Atodiadau</b>	
1 Dulliau Archwilio	20



# Adroddiad cryno

---

- 1 Ddydd Gwener 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n atal pob llawdriniaeth gofal wedi'i chynllunio nad oedd yn llawdriniaeth frys mewn ysbytai. Daeth hyn o flaen cyhoeddiadau tebyg ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd atal gweithgarwch nad oedd yn frys yn golygu y gallai'r GIG ryddhau capasiti – gwelyau, staff ac offer – er mwyn ymateb i'r don arfaethedig o achosion COVID-19. Ar y pryd, roedd cryn bryder bod y DU ar drywydd tebyg i'r Eidal, lle'r oedd y system gofal iechyd yn dechrau cael ei gorlethu.
- 2 Mae'r GIG wedi parhau i drin y cleifion mwyaf brys. Ond mae cannoedd ar filoedd o bobl yng Nghymru bellach wedi'u 'parcio' ar restrau aros (**Blwch 1**). Rhwng diwedd Ionawr a Mai 2020 fe wnaeth cyfanswm y cleifion ar restr aros ostwng rhyw fymryn, o tua 462,000 i 453,000. Y rheswm rhannol am hyn oedd bod llawer llai o bobl wedi'u hatgyfeirio gan eu meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall, am eu hapwyntiad cyntaf claf allanol, yn ystod anterth y cyfnod clo. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a oedd yn aros am gyfnodau hwy. Ym mis Mai, roedd tua 148,000 wedi bod yn aros mwy na chwe mis (i fyny o 77,000 ym mis Ionawr). O'r cleifion hynny, roedd 79,000 yn dal i aros am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf (i fyny o 33,000 ym mis Ionawr).

## Blwch 1 – Rhestrau aros ac amseroedd aros

---

Er bod GIG Cymru yn system gymhleth, dim ond ciwiau yw rhestrau aros yn y bôn. Mae gan y GIG giwiau amrywiol, amlwg a llai amlwg. Mae'r rhestr aros am ofal wedi'i gynllunio nad yw'n weladwy, yn bodoli'n bennaf ar systemau cyfrifiadurol gyda chleifion yn treulio'r rhan fwyaf o'r cyfnod aros yn eu cartrefi. Mae'r ciw ar gyfer triniaeth am ganser yn debyg. Mae'r ciw ar gyfer triniaeth frys yn fwy gweladwy, gyda chleifion yn aros mewn ystafelloedd aros, ciwbiclau, weithiau mewn cerbydau ambiwlans ac ar drolïau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer pa mor hir y dylai pobl ym mhob un o'r ciwiau hyn aros. Yr her i'r GIG yw cydbwysu a blaenoriaethu o fewn a rhwng y ciwiau hyn, gan eu bod nhw'n aml yn cystadlu am yr un capasiti: ymgynghorwyr, meddygon, nyrsys, gwelyau, slotiau apwyntiadau a theatrau llawdriniaeth. Cyn COVID-19, nid oedd y GIG yn cyrraedd y targedau amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gofal canser na gofal brys.

- 3 Pan ddaeth y cyfyngiadau symud i rym yn y DU, roeddem yn cwblhau ein gwaith ar ddilyn y cynnydd o gymharu â'n hadroddiadau o 2015 ar amseroedd aros ar gyfer gofal dewisol a gwasanaethau orthopedig. Yr un hen stori oedd i'r ddwy astudiaeth: mae llawer o gleifion yn dal i wynebu amseroedd aros hir (**ffigur 1**). Bu rhywfaint o gynnydd mewn meysydd penodol, ond ni welsom y mathau o newid i'r system gyfan sy'n ofynnol i'r system gofal wedi'i gynllunio fod yn gynaliadwy.

**Ffigur 1 – cleifion sy'n aros dros 26 wythnos a 36 wythnos ym mis Mai 2020**

Ffynhonnell: Daw'r ffigurau hyd at fis Ionawr 2020 o StatsCymru, a ffigurau mis Chwefror i fis Mai o ddata Llywodraeth Cymru

Nodyn: nid yw ffigurau Chwefror-Mai wedi bod drwy'r prosesau dilysu arferol

- 4 Yng nghyd-destun COVID-19 rydym wedi ail-fframio canfyddiadau a negeseuon allweddol y ddau adolygiad er mwyn llywio'r cynlluniau sy'n datblygu ar gyfer ailgychwyn gofal wedi'i gynllunio a'r trafodaethau ehangach ar sut siâp fydd ar y GIG wedi COVID-19. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cynnig deg cyfle allweddol – pum cyfle tymor hwy i ailosod y system a phum cyfle ar unwaith i ailgychwyn y system (**ffigur 2**).
- 5 Bydd manteisio ar y cyfleoedd hyn yn helpu i greu newidiadau cynaliadwy i system gofal wedi'i gynllunio y GIG mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn dda â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef canolbwyntio ar yr hirdymor, cydweithio, integreiddio, atal a chymryd rhan. Nid ydym yn honni y bydd pethau'n hawdd, ond efallai ei fod yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ailwampio'n strategol elfen sylfaenol o'r GIG.

## Ffigur 2 – Ein 10 Cyfle Allweddol i'r GIG wrth ailgychwyn gofal wedi'i gynllunio

### Pum cyfle i ailosod y system



**Gwneud penderfyniadau dewr** am y gyfundrefn targedau ac atebolwydd er mwyn cysoni'r system gofal arfaethedig o amgylch '**beth sy'n bwysig**'

Cryfhau **arweinyddiaeth gyfunol** gofal wedi'i gynllunio, dysgu gwersi o COVID-19 a chyn hynny

**Atgyfnerthu ac ehangu** newidiadau diweddar mewn gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cynnwys cleifion

Cynnal adolygiad **llawn a gonest** o gapasiti a chynaliadwyedd y system gofal wedi'i gynllunio

**Datblygu mesurau perfformiad** ar gyfer gofal wedi'i gynllunio sy'n cyd-fynd â chanlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i gleifion, teuluoedd a chymunedau



### Pum cyfle i ailgychwyn y system

Parhau i **ddatblygu systemau ar gyfer blaenoriaethu cleifion** sydd â'r angen mwyaf am driniaeth

**Ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion** am yr opsiynau triniaeth a'r heriau, yn unol ag egwyddorion cyd-gynhyrchu

Cynyddu gweithgarwch yn ofalus gan barhau i **ganolbwyntio ar ddiogelwch** a chadw'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i COVID-19

**Ymgysylltu â chlinigwyr a gwyddonwyr data** i ddadansoddi'n drylwyr yr ôl-groniad o restrau aros gyda'r nod o leihau'r risg o or-drin

Hyrwyddo atal, hunanofal a newid ymddygiad er mwyn **lleihau afiechydon anadlol** yn arbennig a diogelu capasiti'r GIG dros fisoedd yr hydref/gaeaf



# Pum cyfle i ailosod y system

---

01



## Gwneud penderfyniadau dewr am y gyfundrefn targedau ac atebolrwydd er mwyn cysoni'r system gofal arfaethedig o amgylch 'beth sy'n bwysig'

- 1.1 Mae strategaeth genedlaethol y GIG – Cymru Iachach – yn nodi'r uchelgais i wasanaethau ganolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i gleifion. Er bod amseroedd aros yn bwysig i gleifion, dydyn ni ddim yn credu mai dyma'r stori lawn.
- 1.2 Ers blynyddoedd lawer, mae'r GIG wedi canolbwyntio cryn dipyn ar faterion rheoli a chlinigol er mwyn bodloni targedau amseroedd aros rhifiadol ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn. Gwelsom sawl enghraifft lle'r oedd yr ymdrech i gyrraedd targedau o bosib yn ystumio penderfyniadau a blaenoriaethau clinigol. Credwn fod y pwyslais ar dargedau yn annog meddwl yn y tymor byr ac yn rhwystro cyrff y GIG rhag datblygu cynlluniau realistig.
- 1.3 Clywsom rai safbwyntiau cadarnhaol am y gwaith i ddiwygio'r targedau ar gyfer gofal llygaid, lle bu symud i ffwrdd o un targed i bawb, i gytuno ar amseroedd aros sy'n glinigol-berthnasol i bob unigolyn. Credwn fod cyfle i ddysgu o'r profiad hwnnw fel rhan o'r broses ehangach o ailfeddwl am sut i ymdrin â pherfformiad ac atebolrwydd yn y GIG, fel ei fod yn cydfynd â sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' ac ansawdd a diogelwch.

## Cryfhau arweinyddiaeth gyfunol gofal wedi'i gynllunio, dysgu gwersi o COVID-19 a chyn hynny

- 1.4 Mae her yn wynebu'r GIG bob amser – cydbwyso cyfeiriad cenedlaethol ag arloesi lleol mewn ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol. Wrth ymateb i'n hadroddiadau yn 2015, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd menter o'r enw y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn dod ag arweinwyr o bob cwr o'r GIG at ei gilydd i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, daeth ein gwaith dilynol i'r casgliad mai cyfyngedig fu dylanwad y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio. Dywedodd uwch weithredwr bwrdd iechyd wrthym 'the Programme has dropped little pebbles into lots of ponds but hasn't changed the whole system'.

- 1.5 Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn troi ei golygon at gynlluniau ar gyfer Gweithrediaeth GIG newydd a fydd yn dwyn ynghyd arweinyddiaeth ac atebolrwydd cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu cynllun newydd ar gyfer gwasanaethau clinigol ledled ein gwlad. Credwn fod y rhain yn gyfleoedd cadarnhaol i ailosod y dull o ymdrin ag arweinyddiaeth strategol.
- 1.6 Nid ydym yn honni bod gennym yr holl atebion ar sut y dylai arweinyddiaeth edrych. Ond credwn fod angen i arweinwyr y GIG fanteisio ar y cyfle hwn i ailosod er mwyn cael adolygiad trwyadl sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio, beth sydd ddim wedi gweithio, a pham. Dylai ystyried yr hyn a ddysgwyd wrth ymateb i COVID-19, lle bu dull newydd o arwain, yn ogystal â dysgu o raglenni cenedlaethol blaenorol a chyfredol. Dylid osgoi dychwelyd yn awtomatig i ffyrdd blaenorol o weithio, gan nad yw hyn yn debygol o roi'r cyd-gymhelliant i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'r system.

## Atgyfnerthu ac ehangu newidiadau diweddar mewn gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cynnwys cleifion

- 1.7 Pe na bai'r pandemig wedi digwydd, byddai ein gwaith dilynol wedi nodi pa mor araf yr aeth y system i'r afael â materion a nodwyd gennym nôl yn 2015. Fodd bynnag, mae'r arloesi a'r trawsnewidiad cyflym sydd wedi digwydd o ganlyniad i COVID-19 wedi dangos yr hyn y gellir ei wneud, ond mewn amgylchedd gyda llai o gyfyngiadau costau. Yr her nawr yw atgyfnerthu ac adeiladu ar y newid sydd wedi digwydd i wasanaethau, gan gynnwys:
  - a adeiladu ar ddatblygiad cyflym gwasanaethau digidol sy'n darparu sylfaen ar gyfer trawsnewid y model cleifion allanol traddodiadol yn ehangach, gan ystyried y rhaniadau digidol a sicrhau bod gwasanaethau'n dal ar gael i bob claf; ac
  - b adeiladu ar y newid diwylliannol sydd wedi gweld staff yn barod i gamu'n llwyr y tu allan i ffiniau proffesiynol traddodiadol er mwyn cefnogi ffyrdd newydd a mwy effeithlon ac effeithiol o weithio mewn tîm, sy'n galluogi staff i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u sgiliau.

- 1.8 Mewn llawer o achosion, mae gwasanaethau wedi newid yn gyflym ac o dan bwysau. Rydym yn cydnabod ei bod hi'n anodd ymgysylltu'n llawn â chleifion a chyd-gynhyrchu'r ffyrdd newydd o weithio. Ond wrth i'r ffyrdd newydd hyn o weithio ennill eu plwyf, mae cyfle i ymgysylltu â chleifion er mwyn egluro'r hyn y gallant ei ddisgwyl a deall eu barn a'u profiadau er mwyn mireinio a gwella.
- 1.9 Er bod pethau'n newid yn araf cyn COVID, roedden nhw'n digwydd. Ym maes orthopedeg, mae Gwasanaethau Clinigol ar gyfer Asesu a Thrin Cyflyrau Cyhyrysgerberbydol<sup>1</sup> wedi dangos y gallwch ddiwallu'r galw ac anghenion cleifion y tu allan i'r ysbyty, ac yn rhatach o bosibl, er bod lle i leihau rhywfaint o orgyffwrdd mewn rolau. Mae ein gwaith dilynol yn 2019 hefyd yn dangos bod sawl maes, fel hyd arhosiad, yn fwy effeithlon erbyn hyn, er bod cyfleoedd o hyd i fod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol.

## Cynnal adolygiad llawn a gonest o gapasiti a chynaliadwyedd y system gofal wedi'i gynllunio

- 1.10 Mae COVID-19 wedi taflu goleuni ar gapasiti'r GIG sydd o dan bwysau, gan gynnwys gwelyau, staffio a'r ystâd. Roedd rhoi'r gorau i raglenni gofal wedi'i gynllunio nad oedd yn ofal brys am gyfnod mor hir er mwyn rhoi blaenoriaeth i gleifion COVID-19 yn rhyfeddol. Ond nid oedd yn sefyllfa gwbl newydd. Mae byrddau iechyd wedi gwneud pethau tebyg er mwyn rheoli pwysau'r gaeaf ym maes gofal brys, ac mewn ffordd heb ei chynllunio trwy ganslo llawdriniaethau ar fyr rybudd. Ers blynyddoedd, gofal wedi'i gynllunio oedd y falf diogelwch pan oedd y system dan ormod o bwysau.
- 1.11 Yn 2015, daethom i'r casgliad nad oedd y cyflenwad yn cyfateb i'r galw am ofal wedi'i gynllunio, a chredwn fod hyn yn dal yn wir. Cyn COVID-19, roedd y GIG yn dibynnu ar y drefn o dalu cyfradd premiwm i glinigwyr i gyflawni gwaith ar benwythnosau er mwyn gwella rhestrau aros. Roedd yr agwedd tymor byr hon yn golygu bod y GIG mewn sefyllfa fregus pan wnaeth Llywodraeth y DU newid y rheolau treth pensiwn<sup>2</sup> a olygai nad oedd clinigwyr yn barod i ymgymryd â gwaith ychwanegol. O ganlyniad, roedd amseroedd aros eisoes yn gwaethgu'n enbyd yn ystod 2019-20: ymhell cyn i COVID-19 daro.

---

1 Datblygwyd Gwasanaeth Clinigol ar gyfer Asesu a Thrin Cyflyrau Cyhyrysgerberbydol er mwyn darparu gwasanaeth cymunedol i drin poen a chyflyrau o'r fath.

2 Yn 2019-20, daeth rheolau newydd yn ymwneud â threth a dalwyd ar bensiynau i rym. Effaith hyn oedd biliau sylweddol posibl i glinigwyr pe baent yn cyflawni gwaith ychwanegol. Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru adleisio ateb dros dro i'r mater, a weithredwyd yn Lloegr, lle byddai'r GIG yn talu am y rhwymedigaethau treth. Nodir pryderon Llywodraeth Cymru mewn [llythyr gan y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Parhaol](#), yn ei chyfarwyddo i weithredu'r un dull â Lloegr.

- 1.12 Mae cyfleoedd i'r GIG wneud defnydd gwell o adnoddau presennol. Fel y nodwyd yma ac yn ein gwaith blaenorol, mae'r cyfleoedd hyn yn ymwneud â newid y drefn a'r gwasanaethau, gan wneud defnydd gwell o dechnoleg a gwneud gwelliannau effeithlonrwydd cynyddrannol. Roedd ein gwaith yn 2015 yn amcangyfrif rhai o'r manteision ariannol a chapasiti posibl yn sgil dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio<sup>3</sup>.
- 1.13 Ond ochr yn ochr â'r pwyslais ar newid a thrawsnewid, mae angen trafodaeth agored a gonest hefyd am gyllid tymor hwy y GIG. Dylai fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae'n ei gostio mewn gwirionedd i ddileu'r ôl-groniad o gleifion a darparu digon o gapasiti craidd i ddiwallu anghenion gofal iechyd y boblogaeth yng Nghymru.

## Datblygu mesurau perfformiad ar gyfer gofal wedi'i gynllunio sy'n cyd-fynd â chanlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i gleifion, teuluoedd a chymunedau

- 1.14 Nid yw ein pwynt cynharach am ailystyried y targedau yn golygu ein bod yn dweud y dylai'r GIG roi'r gorau i fesur amseroedd aros. Mae hyd yr amseroedd aros yn ddangosydd pwysig o ansawdd, capasiti a llif yn y system. Rydym yn poeni bod gormod o bwyslais gan reoli perfformiad ar un mesur yn unig. Mae angen mireinio rhai pethau o hyd, o ran deall amseroedd aros o'r dechrau i'r diwedd, fel sut i gyfrif arosiadau am wasanaethau fel CMATS a gwasanaethau cymunedol.
- 1.15 Credwn fod angen i risg a blaenoriaeth glinigol gael eu cynnwys yn fwy amlwg mewn mesurau perfformiad. Yn 2015, fe wnaethom ddweud y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data amseroedd aros ar sail cleifion 'brys' a 'rheolaidd', ond ni dderbyniwyd yr agwedd honno ar ein hargymhelliad. Mae llawer o waith ar droed nawr i gael dealltwriaeth well o risgiau clinigol rhestrau aros. Rydym yn dal i gredu bod cyfle i ailedrych ar ysbryd yr argymhelliad gwreiddiol hwnnw er mwyn adlewyrchu'r pwysigrwydd cyfredol o roi syniad clir i fyrddau a Llywodraeth Cymru ynghylch pa mor hir mae cleifion brys wedi bod yn aros.

---

3 Er enghraifft, roedd ein hadroddiad yn 2015 ar amseroedd aros ar gyfer gofal dewisol yn amcangyfrif y gallai lleihau amrywiadau ar gyfer pob llawdriniaeth ryddhau capasiti sy'n cyfateb i 32,000 o lawdriniaethau a 47,000 o ddyddiau gwely, ac y gallai gostyngiad o 50% ryddhau capasiti ar gyfer 16,800 o lawdriniaethau, 22,000 o ddyddiau gwely. Gwerth y capasiti hwn fyddai tua £26 miliwn (yn arian 2014-15). Mae Ffigur 2 yr adroddiad yn nodi cyfleoedd capasiti ac effeithlonrwydd pellach.

- 1.16 Mae cyfle mawr hefyd i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i gleifion. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu mesurau canlyniadau a gofnodir gan gleifion er mwyn cael dealltwriaeth well o ganlyniadau clinigol a chefnogi penderfyniadau. Ond mae cyfleoedd i gyflymu ac ehangu'r gwaith. Mae cyfleoedd hefyd i ddeall boddhad ac ymgysylltiad cleifion yn well, yn enwedig faint o lais sydd ganddyn nhw mewn penderfyniadau, pa mor wybodus ydyn nhw am brosesau a beth i'w ddisgwyl.
- 1.17 Credwn hefyd fod cyfleoedd i ddysgu gwersi o ofal cymdeithasol ar eu gwaith yn mesur canlyniadau personol. Efallai nad yr hyn sy'n bwysig i gleifion llawdriniaeth ar y pen-glin, er enghraifft, yw'r canlyniadau clinigol fel gwella'r asgwrn a meinwe o reidrwydd. Mae'n ymwneud â'r gallu i gerdded i'r swyddfa bost, chwarae pêl-droed gyda'r wyrion neu ddychwelyd i ddawnsio. Os mai 'beth sy'n bwysig' sydd o bwys mewn gwirionedd, yna mae angen dull gwahanol iawn o ymdrin â'r hyn sy'n cael ei fesur ac mae yna rai heriau technegol i'w goresgyn er mwyn cyflawni hynny.



# Pum cyfle i ailgychwyn y system

---

02

## Parhau i ddatblygu systemau ar gyfer blaenoriaethu cleifion sydd â'r angen mwyaf am driniaeth

- 2.18 O gofio'r holl apwyntiadau gofal wedi'i gynllunio sy'n aros i gael eu gwneud a'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r GIG, mae blaenoriaethu cleifion yn seiliedig ar anghenion clinigol yn ffordd synhwyrol o ddogni'r adnoddau gofal iechyd prin er mwyn lleihau niwed. Fodd bynnag, mae'n anochel bod hynny'n golygu cyfnodau hir iawn o aros i rai na chânt eu hystyried yn flaenoriaeth.
- 2.19 Yn draddodiadol, mae'r GIG yn rhannu cleifion yn rhai 'brys' ac 'arferol'. O dan yr amgylchiadau presennol, nid yw hynny'n ddigon sensitif i wahaniaethu rhwng y rhai sydd angen eu gweld o fewn dyddiau a'r rhai sydd angen eu gweld o fewn wythnosau neu ychydig fisoedd. Mae'r GIG bellach yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o gleifion brys, ond dros amser bydd angen iddynt hefyd wahaniaethu cleifion yn fwy cyffredinol.
- 2.20 Yn 2015, cynhaliodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru bellach) adolygiad rhyngwladol o ddulliau blaenoriaethu gofal dewisol, gan dynnu sylw at rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â dulliau blaenoriaethu sy'n seiliedig ar bwyntiau. Credwn y dylai'r GIG yng Nghymru edrych ar brofiad rhyngwladol, gan gynnwys profiadau byw'r rheini sydd ychydig ar y blaen i'r DU ar gromlin y pandemig, wrth fireinio ei ddull blaenoriaethu ymhellach.
- 2.21 Mae llawer o waith caled i'w wneud o ran newid y systemau sylfaenol i roi trefn yn ôl blaenoriaeth glinigol. Mae systemau archebu a llawer o agweddau manwl eraill ar wasanaethau gofal a gynlluniwyd wedi'u seilio ar flaenoriaethu pobl yn ôl pa mor hir maen nhw wedi bod yn aros. Hefyd, mae 'rheolau' y gêm, fel yr hyn sy'n digwydd pan fydd cleifion yn canslo neu ddim yn mynychu, i gyd yn rhan o system sy'n canolbwyntio ar roi pobl mewn trefn seiliedig ar amser. Bydd angen diweddarau'r rhain. Mae cyfle i ddysgu'r gwersi manwl o weithredu'r mesurau gofal llygaid newydd<sup>4</sup>.

---

4 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull newydd o ymdrin ag apwyntiadau gofal llygaid, a oedd yn golygu blaenoriaethu amseroedd aros cleifion ar sail eu hangen clinigol. Ceir rhagor o fanylion yn natganiad y Gweinidog Iechyd.

## Ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion am yr opsiynau triniaeth a'r heriau, yn unol ag egwyddorion cyd-gynhyrchu

2.22 Credwn fod cyfle i Lywodraeth Cymru a'r GIG ymgysylltu'n gadarnhaol â chleifion o ganlyniad i'r newidiadau mae'r GIG yn gorfod eu gwneud. Dyma'r tri maes yr awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r GIG eu blaenoriaethu:

- a **Informing Dweud wrth** y cyhoedd am hyd a lled y broblem sy'n wynebu gofal wedi'i gynllunio yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Nodi'n glir y gallai rhai pobl orfod aros cryn amser am eu llawdriniaethau arferol.
- b **Cynnwys** cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau gyda chlinigwyr er mwyn adolygu'r opsiynau a'r dewisiadau amgen yn lle llawdriniaeth. Mewn llawer o achosion, o gael dewis, byddai'n well gan gleifion y dewisiadau lleiaf ymyrrol. Mewn rhai achosion ac yn sgil hyn, efallai y bydd angen i glinigwyr feddwl yn wahanol am beth sydd orau i'r claf.
- c **Ymateb** drwy gadw mewn cysylltiad â chleifion nad ydynt efallai'n flaenoriaeth frys ar hyn o bryd a sicrhau bod system ar waith i'w hailddosbarthu os bydd eu cyflwr yn dirywio'n sylweddol.

## Cynyddu gweithgarwch yn ofalus gan barhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a chadw'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i COVID-19

2.23 Wrth ailgychwyn gofal wedi'i gynllunio, mae'r GIG yn yr un sefyllfa â llawer o wledydd datblygedig eraill o ran cydbwyso risgiau. Mae [dadansoddiad aml-wlad a gyhoeddwyd yn y Lancet](#) yn cyfeirio at bryderon am llawdriniaethau nad ydynt yn rhai brys yn ystod y pandemig, sy'n parhau. Ond ar yr un pryd, mae niwed posibl o beidio â chynnal llawdriniaethau a gwneud i gleifion aros am gyfnodau maith.



- 2.24 Bydd angen i'r GIG fod yn realistig ynghylch cydbwysu'r pwysau i gynyddu gweithgarwch a defnyddio mwy o gapasiti yn erbyn yr angen i reoli heintiau ac ymateb i unrhyw achosion lleol. Mae angen rheoli capasiti'n ofalus. Yn 2015, fe wnaeth ein gwaith leisio pryderon am ganlyniadau defnydd lefel uchel o welyau yn sgil canslo llawdriniaethau, cleifion mewn gwelyau a ddefnyddir fel arfer ar gyfer arbenigeddau eraill ac ymdeimlad cyffredinol o system a oedd dan bwysau mawr ac yn adweithiol, gyda'r pwyslais ar ddod o hyd i welyau. Credwn y dylai'r GIG, yn ystod y cyfnod adfer hwn, cyn ail don bosibl dros y gaeaf, feddwl am yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn osgoi dychwelyd i sefyllfa o'r fath.
- 2.25 Mae cwestiwn hefyd ynghlŷn â beth i'w wneud â'r capasiti anterth ychwanegol a greodd y GIG mewn ymateb i COVID-19. Crëwyd rhywfaint o hynny drwy ailwampio theatrau a wardiau llawdriniaethau, y byddai eu hangen er mwyn cynyddu'r gofal a gynlluniwyd yn sylweddol. Gyda phosibilrwydd o ail don yn y gaeaf, mae angen ystyried datgomisiynu'r capasiti anterth ychwanegol i ddarparu'n drylwyr a gofalus ar gyfer gofal mwy cynlluniedig, a gwneud hynny mewn ffyrdd y gellir eu gwyrddroi'n sydyn os oes angen.

## Ymgysylltu â chlinigwyr a gwyddonwyr data i ddadansoddi'n drylwyr yr ôl-groniad o restrau aros gyda'r nod o leihau'r risg o or-drin

- 2.26 Credwn fod cyfle i gynnwys clinigwyr a gwyddonwyr data wrth ddadansoddi'r rhestr aros, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau nifer yr amrywiadau diangen a'r risg o or-drin a niwed. Mae dau brif gyfle yma:
- llawdriniaethau nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnal:** lle mae cyfle i ddatblygu rhestr Cymru gyfan o ba llawdriniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol isel a gwneud rhywfaint o waith dadansoddol sy'n edrych ar ba gleifion sydd ar restr y llawdriniaethau hynny ar hyn o bryd;
  - lleihau amrywiadau ar draws gweithgarwch cyffredin:** lle mae cyfle i gymharu rhestrau aros o fewn byrddau iechyd a ledled Cymru er mwyn nodi amrywiadau mewn cyfraddau ymyrraeth ar gyfer llawdriniaethau cyffredin, a allai awgrymu arwyddion o or-driniaeth

- 2.27 Dylid defnyddio'r ddau ddarn yma o ddadansoddi i lywio ac, os oes angen, herio penderfyniadau clinigol a sicrhau bod y sgwrs rhwng clinigwyr a chleifion yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig ac yn iawn i'r claf.

## Hyrwyddo atal, hunanofal a newid ymddygiad er mwyn lleihau afiechydon anadlol yn arbennig a diogelu capasiti'r GIG dros fisoedd yr hydref/gaeaf

- 2.28 Bob blwyddyn, mae'r GIG yn wynebu heriau mawr yn ystod y gaeaf. Er mai'r maes gofal heb ei gynllunio sydd dan y pwysau mwyaf, mae'n cael effaith ganlyniadol ar ofal wedi'i drefnu hefyd pan gaiff llawdriniaethau eu hatal neu eu canslo. Achosion o'r fflw a chyflyrau anadlol eraill sy'n gyrru'r pwysau ychwanegol hyn dros y gaeaf.
- 2.29 O ganlyniad i'r coronafeirws, bu newid sylweddol mewn ymddygiad cyhoeddus mewn ffyrdd a allai helpu i leihau lledaeniad y fflw a salwch anadlol tymhorol eraill. Credwn fod cyfle i fuddsoddi mewn gwaith hyrwyddo mesurau a negeseuon cryf ym maes iechyd y cyhoedd er mwyn annog mesurau hylendid parhaus i gadw pellter cymdeithasol a chael cynlluniau clir i gynyddu cyfraddau brechu rhag y fflw yn ddiogel. Credwn hefyd fod lle i ehangu'r syniad o hunanynysu a hunanofal pan fydd gennych arwyddion cynnar o unrhyw heintiau feirysol, nid yn unig achos posibl o COVID. Gallai ymddygiadau o'r fath helpu i leihau lledaeniad y fflw a helpu i ddiogelu capasiti'r GIG dros fisoedd anodd y gaeaf.



# Atodiadau

---

## 1 Dulliau Archwilio

# 1 Dulliau Archwilio

Mae negeseuon yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith dilynol a wnaethom i'n hadolygiadau yn 2015 o amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal dewisol ac orthopedeg y GIG. Cynhaliwyd rhan helaeth o'r gwaith dros gyfnod o 14 mis a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2020. Yn dilyn yr argyfwng COVID, fe wnaethom addasu ein cynlluniau adrodd i ystyried effaith y pandemig ar ofal wedi'i gynllunio gan y GIG, a chynllunio adfer brys, yn genedlaethol ac yn lleol. Defnyddiwyd trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau o Fwrdd Darparu Ansawdd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gennym i helpu i brofi a llunio ein negeseuon.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein dulliau archwilio isod.

## Amseroedd aros ar gyfer gwaith dilynol gofal dewisol

- Hunanasesu: gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gwblhau hunanasesiad o gynnydd yn erbyn amrywiaeth o feysydd yn ymwneud â'n hargymhellion yn 2015.
- Cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ofal wedi'i gynllunio o fewn y llywodraeth.
- Cyfweiliadau â sampl o swyddogion gweithredol byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ofal wedi'i gynllunio, yn enwedig er mwyn casglu eu barn ar gynnydd gyda rhaglen genedlaethol gofal wedi'i gynllunio.
- Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gohebiaeth Llywodraeth Cymru â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag amseroedd aros y GIG, cynlluniau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymru Iachach, y strategaeth genedlaethol ar gyfer y GIG. Hefyd, adolygwyd ystod o ddogfennau mewnol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hunanasesiad.
- Dadansoddi data: aethom ati i adolygu data cyhoeddedig ar faint o amser mae pobl yn aros am driniaeth, yn ogystal â data cyhoeddedig ar fesurau gweithgarwch ac effeithlonrwydd.

## Gwaith dilynol ar gyfer gwasanaethau orthopedig

Buom yn archwilio cynnydd pob bwrdd iechyd yn ogystal â datblygiadau cenedlaethol mewn perthynas â gwasanaethau orthopedig. Gyda'i gilydd roedd hyn yn cynnwys:

- dadansoddiad o setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd a data ychwanegol gan fyrddau iechyd;
- arsylwadau mewn cyfarfodydd cenedlaethol perthnasol megis Bwrdd Orthopedeg Cymru a Bwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio;
- cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a staff perthnasol y byrddau iechyd, fel arweinydd gweithredol gwasanaethau orthopedig, y cyfarwyddwr clinigol a rheolwr cyffredinol gwasanaethau orthopedig, a'r arweinydd brysbennu orthopedig;
- adolygu ystod o ddogfennau, cynlluniau ac adroddiadau cenedlaethol a lleol.
- arolygon o'r holl fyrddau iechyd i gasglu gwybodaeth ansoddol am wasanaethau orthopedig;
- Ystyried llwybrau gofal pob bwrdd iechyd er mwyn deall y broses a'r materion sy'n wynebu staff a chleifion o ddydd i ddydd; a
- grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o staff yn ymwneud â'r llwybr orthopedig.

Bydd adroddiadau sy'n nodi casgliadau ein gwaith orthopedig lleol yn cael eu rhannu â byrddau iechyd unigol yn ystod hydref 2020, ochr yn ochr â chrynodeb cenedlaethol o negeseuon allweddol y gwaith hwn.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn  
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)